*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 344 (Cy. 82)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwywyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2019

*Gwnaed - - - - 21 Chwefror 2019*
*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 22 Chwefror 2019*
*Yn dod i rym - - 1 Ebrill 2019*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 9(4) a (4A)(**1**) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**2**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**3**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwywyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2019 a daw i rym ar 1 Ebrill 2019.

**Diwygio Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwywyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl) (Cymru) 2009**

**2.** Yn erthygl 3(1) o Orchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwywyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl) (Cymru) 2009(**4**) yn lle "44" rhodder "38".

(**1**) Mewnosodwyd is-adran (4A) gan adran 204 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 p. 28.
(**2**) 1989 p. 42.
(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a (2)(a) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 p. 32.
(**4**) O.S. 2009/40 (Cy. 12).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Hannah Blythyn*
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, o dan awdurdod y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

21 Chwefror 2019

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwywyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl) (Cymru) 2009 (Gorchymyn 2009) er mwyn rhoi effaith i'r newidiadau i bwyntiau colofn gyflog y graddfeydd cyflog ar gyfer swyddogion llywodraeth leol a gyhoeddir gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol.

Roedd Gorchymyn 2009 yn cysylltu uchafswm y tâl ar gyfer cynorthwywyr gwleidyddol o fewn llywodraeth leol yng Nghymru â phwynt 44 ar golofn gyflog y graddfeydd cyflog a gyhoeddir gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol. Mae'r Cyd-gyngor Cenedlaethol wedi cyhoeddi graddfeydd cyflog newydd sy'n uno pwyntiau penodol ar y golofn, a bydd hynny'n cael effaith o 1 Ebrill 2019. Effaith hynny yw bod pwynt 44 yn dod yn bwynt 38 o 1 Ebrill 2019 ymlaen. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2009 er mwyn adlewyrchu'r newid i'r golofn gyflog ac nid yw'n diwygio'r uchafswm tâl fel y'i cyhoeddir gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol o bryd i'w gilydd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.